ATODLEN 2

**YR WYBODAETH SYDD I'W HANFON AT Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

# RHAN V

## YR WYBODAETH YCHWANEGOL SYDD I'W HANFON PAN FYDD Y CYNIGION YN GYNIGION I GAU SEFYDLIAD 16—19 OED

**26.** Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol am y flwyddyn ysgol gyfredol a'r flwyddyn ysgol flaenorol (ac eithrio'r wybodaeth a bennir yn is-baragraff (ch)),—

(a) y rhif safonol perthnasol ar gyfer pob grŵp oedran perthnasol;

(b) nifer y grwpiau blwyddyn;

(c) faint o le sydd yn yr ysgol; ac

(ch) nifer y disgyblion yn yr ysgol.

**27.** Os ysgol arbennig yw'r ysgol, yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ysgol ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol a'r pedair blwyddyn ysgol flaenorol—

(a) nifer y disgyblion yn yr ysgol;

(b) nifer y disgyblion ym mhob grŵp oedran ac o bob rhyw; ac

(c) nifer y disgyblion â phob un o'r mathau o anghenion addysgol arbennig y mae darpariaeth yn cael ei gwneud ar eu cyfer yn yr ysgol.

**28.** Yr wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â'r ystafelloedd yn yr ysgol—

(a) lleoliad yr ystafelloedd;

(b) a yw'r ysgol ar safle sengl neu ar safle wedi'i rannu; ac

(c) manylion yr ystafelloedd cyffredinol ac arbenigol.

**29.** Manylion yr ysgolion a'r colegau addysg bellach y gellid yn rhesymol, ym marn y Cyngor, ddisgwyl i'r disgyblion a fyddai fel arall wedi mynychu'r ysgol allu eu mynychu ar ôl darfod oedran ysgol gorfodol os cymeradwyir y cynigion, gan gynnwys asesiad o ansawdd y sefydliadau hynny ac o unrhyw drefniadau pontio a fydd yn gymwys.

**30.** Os ysgol prif-ffrwd yw'r ysgol, manylion canlyniadau'r arholiadau y cyfeirir atynt yn is-baragraffau (a) i (c) o baragraff 23 am y ddwy flwyddyn ysgol cyn y flwyddyn ysgol gyfredol yn yr ysgol sy'n destun y cynigion ac ym mhob ysgol a gynhelir, pob coleg technoleg dinas, pob coleg dinas ar gyfer technoleg y celfyddydau a phob coleg addysg bellach a enwir yn unol â pharagraff 29.

**31.** Nifer y lleoedd sydd ar gael yn y sefydliadau a enwir yn unol â pharagraff 29 sydd yn ysgolion.

**32.** Manylion y pellter, wedi'i fesur ar y llwybr byrraf sydd ar gael, rhwng yr ysgol a'r holl sefydliadau a bennir ym mharagraff 29 ynghyd â manylion am y cludiant cyhoeddus sydd ar gael i'r sefydliadau hynny (pan nad oes gwybodaeth felly wedi'i chynnwys eisoes mewn unrhyw drefniadau arfaethedig ar gyfer cludiant a gynhwysir mewn cynigion a gyhoeddir yn unol â pharagraff 4 o Atodlen 1).